# Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

# Cynllun Rheoli
# (2025-2029)

Arfarniad o Gynaliadwyedd (yn ymgorffori Asesiad Amgylcheddol Strategol)

Adroddiad Cwmpasu

APC – Drafft i'w gymeradwyo

AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL
ARFORDIR PENFRO

Cynnwys

**Adran 1.0: Cyflwyniad** ........ 3

**Adran 2.0 Cynlluniau, Polisïau a Rhaglenni Perthnasol** ........ 5

**Adran 3.0: Gwybodaeth Waelodlin** ........ 10

**Adran 4.0: Canfod Materion Cynaliadwyedd** ........ 12

**Adran 5.0: Amcanion Cynaliadwyedd** ........ 21

## Adran 1.0: Cyflwyniad

***Arfarniad o Gynaliadwyedd (SA) ac Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA)***

1.1 Mae gofynion Cyfarwyddeb yr UE 2001/42/EC (a adwaenir hefyd fel Cyfarwyddeb SEA) wedi'u trosi i Gyfraith Cymru drwy Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004. Mae Asesiad Amgylcheddol Strategol yn cynnwys gofyniad i asesu'n ffurfiol unrhyw gynlluniau a rhaglenni penodol sy'n debygol o gael effeithiau arwyddocaol ar yr amgylchedd. Mae Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn gynllun o'r fath sy'n golygu bod yn rhaid cynnal SEA.

1.2 Mae dyletswydd Awdurdodau Parciau Cenedlaethol i feithrin llesiant economaidd a chymdeithasol cymunedau'r Parciau Cenedlaethol wrth gyflawni eu dibenion, yn awgrymu ei bod yn briodol i ystyried amcanion cynaliadwyedd ehangach wrth asesu Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol. Mae Canllaw ar Gynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol a gyhoeddwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CRC) yn datgan y gall gofynion SEA ac SA gael eu cyflawni mewn un arfarniad.

1.3 Mae Arfarniad o Gynaliadwyedd yn broses sy'n hanfodol i'r broses o lunio'r Cynllun ac mae hefyd yn llywio'r broses honno. Mae Arfarniad o Gynaliadwyedd Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol, y mae'r Adroddiad Cwmpasu hwn yn rhan ohono, yn ymgorffori Asesiad Amgylcheddol Strategol.

1.4 Mae Llywodraeth Cymru'n diffinio datblygu cynaliadwy yng Nghymru drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 fel:
"*y broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gyda'r nod o gyflawni'r nodau llesiant"* (ceir disgrifiad mwy manwl o'r Ddeddf a'i nodau yn Adran 5).

***Proses***

1.5 Mae camau Arfarniad o Gynaliadwyedd cynlluniau fel a ganlyn:

- Cwmpasu - pennu'r cyd-destun a'r amcanion, sefydlu'r waelodlin a phenderfynu ar y cwmpas;
- Asesu polisïau'r cynllun yn erbyn yr Amcanion Cynaliadwyedd a chynhyrchu Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd;
- Cynhyrchu Datganiad Cynaliadwyedd sy'n datgan sut mae canfyddiadau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd wedi cael eu hystyried yn y Cynllun terfynol.

1.6 Mae'r Adroddiad Cwmpasu hwn yn ymwneud â'r cam cyntaf. Mae'n cynnwys: adolygiad o Bolisïau, Cynlluniau a Rhaglenni sy'n berthnasol i'r Cynllun

Rheoli; gwybodaeth waelodlin sy'n disgrifio'r amodau cyfredol yn y Parc Cenedlaethol; mae'n nodi materion cynaliadwyedd sy'n wynebu'r Parc Cenedlaethol a'i breswylwyr ac mae'n sefydlu Fframwaith Asesu Cynaliadwyedd - set o amcanion y gellir barnu cynaliadwyedd polisïau'r Cynllun Rheoli yn eu herbyn.

1.7 Cynhelir ymgynghoriad cyhoeddus ar yr Adroddiad Amgylcheddol drafft ochr yn ochr â'r ymgynghoriad ar y Cynllun Rheoli drafft. Bydd yr Adroddiad Amgylcheddol drafft yn nodi unrhyw effeithiau cymdeithasol ac economaidd arwyddocaol tebygol yn sgil gweithredu'r Cynllun Rheoli drwy asesu'r polisïau a'r camau gweithredu.

***Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd***

1.8 Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (APCAP) yn awdurdod cymwys o dan Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017, y cyfeirir atynt yn aml fel y Rheoliadau Cynefinoedd. Yn unol â Rheoliad 63 o'r rheoliadau hynny, rhaid i APCAP gynnal asesiad o'u Cynllun Rheoli fel mater o gyfraith cyn ei roi ar waith. Cyfeirir at yr asesiad hwn yn aml fel 'Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd' neu 'HRA' ac mae'r rheoliadau'n nodi'n glir y broses fesul cam ddiffiniedig y mae'n rhaid ei dilyn.

1.9 Bydd yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer y Cynllun Rheoli yn cael ei gyflwyno mewn dogfen ar wahân.

***Y Gymraeg***

1.10 Mae hysbysiad Cydymffurfiaeth Iaith Gymraeg yr Awdurdod yn nodi bod yn rhaid i'r Awdurdod ystyried sut y gellid llunio polisi newydd (neu sut y gellid newid polisi presennol) fel y byddai'r penderfyniad polisi naill ai:

- yn cael effaith bositif, neu fwy o effaith bositif, neu,
- na fyddai'n cael effaith andwyol, neu a fyddai'n cael llai o effaith andwyol, ar y Gymraeg a chyfleoedd i bobl i ddefnyddio'r Gymraeg.

1.11 Dylai'r penderfyniad polisi hefyd sicrhau nad yw'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Rhaid i'r Awdurdod wneud penderfyniad cydwybodol i ystyried effeithiau polisïau ar y Gymraeg.

1.12 Rhaid i'r Awdurdod wneud ymdrech gydwybodol i ystyried effeithiau polisïau ar y Gymraeg.

1.13 Bydd Asesiad o Effaith llawn y Cynllun Rheoli ar y Gymraeg (WLIA) yn cael ei gyflwyno mewn dogfen ar wahân.

***Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, Ystyriaethau Economaidd Gymdeithasol, Iechyd a Hawliau Dynol***

1.13 O dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, rhaid i'r Awdurdod asesu sut y gall unrhyw bolisïau neu arferion gweithio newydd neu arfaethedig effeithio ar grwpiau gwarchodedig. Wrth asesu'r effaith ar grwpiau gwarchodedig rhaid i'r Awdurdod ystyried sut y bydd hyn yn effeithio ar sut y bydd yn cyflawni dyletswydd gyffredinol Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

1.14 Mae Llywodraeth Cymru wedi deddfu'r Ddyletswydd Economaidd Gymdeithasol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae hyn yn golygu y bydd yr Awdurdod wrth wneud penderfyniadau strategol eu natur ar sut i gyflawni ei swyddogaethau, yn rhoi sylw dyladwy i'r awydd i'w gweithredu mewn ffordd sydd wedi'i chynllunio i leihau anghydraddoldebau mewn canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd gymdeithasol.

1.15 Mae Rheoliadau Asesu Effeithiau ar Iechyd (Cymru) drafft yn cynnig gofyniad statudol ar gyfer cyrff cyhoeddus penodol, gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, yng Nghymru i gynnal HIA pan fyddant yn datblygu neu'n diwygio strategaethau sy'n cael effaith arwyddocaol ar iechyd. Prif ddiben HIA yw ymgorffori ystyriaethau iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl, mewn prosesau penderfynu.

1.16 Mae'n anghyfreithlon i gyrff yng Nghymru weithredu mewn ffordd sy'n anghydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a rhaid iddynt gyflawni eu rhwymedigaethau o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998. Mae rhwymedigaethau ar gyrff cyhoeddus hefyd i ystyried, arsylwi a chydymffurfio â chytundebau hawliau dynol rhyngwladol a lofnodwyd ac a gadarnhawyd gan y DU.

1.17 Rhaid i'r Awdurdod allu dangos ei fod wedi rhoi sylw dyladwy i'r meysydd uchod.

1.18 Bydd yr asesiad cyfunol a nodwyd uchod, ar gyfer y Cynllun Rheoli, yn cael ei gyflwyno mewn dogfen ar wahân.

## Adran 2.0 Cynlluniau, Polisïau a Rhaglenni Perthnasol

2.1 Nodwyd y Deddfau, y Cyfarwyddebau, polisïau, cynlluniau, rhaglenni, adroddiadau ac adolygiadau canlynol fel rhai a fydd yn llywio ac yn arwain y gwaith o gynhyrchu'r Cynllun Rheoli ar gyfer Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Dylid nodi y gallai'r rhestr hon newid wrth i'r Cynllun ddatblygu. Am

ddisgrifiad mwy manwl o’r dogfennau a’u perthnasedd i’r Cynllun, yn ogystal â dolenni at wefannau, gweler Atodiad A.

Agenda 21, Adran Materion Economaidd a Chymdeithasol y Cenhedloedd Unedig (1992)
Datganiad Rio ar yr Amgylchedd a Datblygu, UNEP (1992)
Adroddiad Uwchgynhadledd y Byd ar Ddatblygu Cynaliadwy, Y Cenhedloedd Unedig, (2002)
Confensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd, Y Cenhedloedd Unedig (1994)
Protocol Kyoto, Y Cenhedloedd Unedig (1997)
Confensiwn ar Rywogaethau Mudol, UNEP (1979)
Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol, UNEP (1992)
Confensiwn Ramsar ar Wlyptiroedd, UNESCO (1971)
Confensiwn Aarhus, Confensiwn Economaidd Ewrop y Cenhedloedd Unedig (1998)
Rheoliad 79/409/EEC yr UE (y Gyfarwyddeb Adar Gwyllt, Cyngor Senedd Ewrop a Chyngor yr Undeb Ewropeaidd(2019)
Rheoliad 2014/52/EU yr UE (y Gyfarwyddeb EIA), Senedd Ewrop a Chyngor yr Undeb Ewropeaidd
Rheoliad 1137/2008 yr UE (y Gyfarwyddeb Nitradau), Senedd Ewrop a Chyngor yr Undeb Ewropeaidd (2008)
Rheoliad ‘2013/17/EU’ yr UE (y Gyfarwyddeb Cynefinoedd, Cyngor yr Undeb Ewropeaidd (2013)
Rheoliad 2015/1480 yr UE (y Gyfarwyddeb Fframwaith Newydd ar Aer Glân), Y Comisiwn Ewropeaidd (2015)
Rheoliad 2018/850 yr UE (y Gyfarwyddeb Tirlenwi), Senedd Ewrop a Chyngor yr Undeb Ewropeaidd(2018)
Rheoliad 2014/101/EU yr UE (y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr), Y Comisiwn Ewropeaidd (2014)
Rheoliad 2021/1226 yr UE (y Gyfarwyddeb ar Sŵn Amgylcheddol), Y Comisiwn Ewropeaidd (2021)
Rheoliad 2016/2284 yr UE (y Gyfarwyddeb ar Ddarparu Cyfranogiad Cyhoeddus), Y Senedd a Chyngor yr Undeb Ewropeaidd (2016)
Rheoliad 2004/35/CE yr UE (y Gyfarwyddeb Atebolrwydd Amgylcheddol) fel y’u diwygiwyd gan Reoliad 2019/1010 (EU), Senedd Ewrop a Chyngor yr Undeb Ewropeaidd 2004 fel y’i diwygiwyd 2019
Cyfarwyddeb 2008/98/EC yr UE (y Gyfarwyddeb Rheoli Gwastraff) fel y’i diwygiwyd gan Reoliad (EU) 2023/1542, Senedd Ewrop a Chyngor yr Undeb Ewropeaidd (2023)
Y Confensiwn Tirweddau Ewropeaidd, Cyngor Ewrop (2000)
Y Confensiwn ar Gadwraeth Bywyd Gwyllt a Chynefinoedd Naturiol Ewrop, Cyngor Ewrop,1979

RHEOLI SAFLEOEDD NATURA 2000 Darpariaethau Erthygl 6 o’r Gyfarwyddeb ‘Cynefinoedd’, Cyfarwyddeb 92/43/CEE, Y Comisiwn Ewropeaidd (2000)
Rhaglen Newid yn yr Hinsawdd Ewrop, Y Comisiwn Ewropeaidd (2000)
Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (fel y’i diwygiwyd), Senedd y DU (2000)
Deddf yr Amgylchedd 1995 (fel y’i diwygiwyd), Senedd y DU (1995)
Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 (fel y’i diwygiwyd), Senedd y DU (2006)
Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archeolegol 1979 (fel y’i diwygiwyd), Senedd y DU (1979)
Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y’i diwygiwyd), Senedd y DU (1981)
Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau (Cymru a Lloegr), Senedd y DU (2017)
Fframwaith Bioamrywiaeth Fyd-eang Kunming-Montreal, COP15 (2022 )
Securing the Future – Strategaeth datblygu cynaliadwy Llywodraeth y DU, Llywodraeth y DU (2005)
Y Strategaeth Ansawdd Aer ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon (fel y’i diwygiwyd), DEFRA (2007)
Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a Chynllunio – Cyngor Cychwynnol i Awdurdodau Cynllunio yng Nghymru a Lloegr, EA; RTPI; CLlLC; LGA (2006)
Water for People and the Environment: water resources strategy for England and Wales, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru 2009, Cyfoeth Naturiol Cymru (Asiantaeth yr Amgylchedd) (2009)
Rhaglen y DU ar Newid yn yr Hinsawdd, DEFRA (2006)
Deddf y Môr a Mynediad i’r Arfordir 2009, Llywodraeth y DU (2009)
Our energy future - creating a low carbon economy, DTI (2003)
Adolygiad Stern ar economeg newid yn yr hinsawdd, Trysorlys EF(2006)
Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, Senedd y DU (2010)
Cynllun cyflawni cenedlaethol ar gyfer trafnidiaeth 2022 hyd 2027, Llywodraeth Cymru (2023)
Cynllun Aer Glân i Gymru: Awyr Iach, Llywodraeth Cymru (2023)
Egwyddorion amgylcheddol, llywodraethu a thargedau bioamrywiaeth: Papur Gwyn – Ymgynghoriad Drafft, Llywodraeth Cymru (2024)
Gwerthfawr a Chydnerth: Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol, Llywodraeth Cymru (2018)
Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015, Llywodraeth Cymru (2015)
Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, Llywodraeth Cymru (2016)
Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) (fel y’i diwygiwyd), Llywodraeth Cymru, 2016, fel y’i diwygiwyd 2023
Cynllun Adfer Natur Cymru, Llywodraeth Cymru (2015)
Polisi Cynllunio Cymru 12fed rhifyn, Llywodraeth Cymru (2024)
Nodiadau Cyngor Technegol, Llywodraeth Cymru, amrywiol flynyddoedd
Cymru: Ffyniant i Bawb – y Strategaeth Genedlaethol, Llywodraeth Cymru (2017)
Cymru’r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040, Llywodraeth Cymru (2021)

Croeso i Gymru: blaenoriaethau i'r economi ymwelwyr 2020 i 2025, Llywodraeth Cymru (2020)
Strategaeth chwaraeon a gweithgarwch corfforol (Dringo'n uwch), Llywodraeth Cymru (2015)
Strategaeth Amgylcheddol i Gymru, Llywodraeth Cymru (2006)
Strategaeth Ddŵr i Gymru, Llywodraeth Cymru (2015)
Llwybr Newydd: strategaeth drafnidiaeth Cymru 2021, Llywodraeth Cymru (2021)
Cynllun cyflawni cenedlaethol ar gyfer trafnidiaeth 2022 i 2027, Llywodraeth Cymru (2023)
Tuag at Ddyfodol Diwastraff – Strategaeth Wastraff i Gymru, Llywodraeth Cymru (2010)
Un Gymru: Un Blaned, Cynllun Datblygu Cynaliadwy newydd i Gymru, Llywodraeth Cymru (2009)
Arweiniad Ymarferol Datblygiadau Un Blaned: Nodyn Cyngor Technegol 6 Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy, Llywodraeth Cymru (2012)
Disodlwyd gan Gynllun Cynefinoedd Cymru dros Dro Cymru 2024-2025, Cyfoeth Naturiol Cymru (2023)
Cofrestr o Dirweddau Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru, Llywodraeth Cymru / Cyfoeth Naturiol Cymru / CADW
Deddf yr Amgylchedd (Cymru) (2016) Adran 7 Cynefinoedd Daearol Pwysig Iawn
Pwysigrwydd Coetiroedd i Gymru, Llywodraeth Cymru/ Cyfoeth Naturiol Cymru (2018)
Deddf Tai Cymru, Llywodraeth Cymru (2014)
Cynllun Datblygu Gwledig 2014-2020: Y Camau Nesaf, Llywodraeth Cymru (2012)
Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015, Llywodraeth Cymru (2011 / 2015)
Cynllun Rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru 2015-2021, Cyfoeth Naturiol Cymru (2015)
Datganiad Ardal Morol, Cyfoeth Naturiol Cymru (ar waith)
Strategaethau Rheoli Tynnu Dŵr Dalgylchoedd, Cyfoeth Naturiol Cymru
Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr Drafft Diwygiedig 2024, Dŵr Cymru/Welsh Water (2024)
Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru (2019)
Datganiad Ardal De Orllewin Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, (ar waith)
Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion (mabwysiadwyd 2013), Cyngor Sir Ceredigion (2011)
Strategaeth a Ffefrir ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Newydd Ceredigion: Cynllun Datblygu Lleol 2 2018-2033, Cyngor Sir Ceredigion
Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin 2006 - 2021 (mabwysiadwyd), Cyngor Sir Caerfyrddin (2011)
Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin Cynllun 2 Cynllun Adneuo: Cynllun Datblygu Lleol 2018 - 2033, Cyngor Sir Caerfyrddin
Cynllun Rheoli Traethlin Sir Benfro a Bae Caerfyrddin, Cyngor Sir Penfro

Cynllun Datblygu Lleol 2 Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (mabwysiadwyd 2020), Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (2020)
Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Penfro (mabwysiadwyd), Cyngor Sir Penfro (2013)
Adolygiad o Gynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Penfro (LDP 2) Cynllun Adneuo: Cynllun Datblygu Lleol 2 2017-2033, Cyngor Sir Penfro (2020)
Cynllun Llesiant Sir Benfro, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (2023)
Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Sir Benfro 2018-2028, Cyngor Sir Penfro (2018)
Cynllun Rheoli Hamdden 5 Mlynedd Dyfrffordd Aberdaugleddau, Porthladd Aberdaugleddau (2021)
Cynllun Adfer Natur Sir Benfro (datganiad sefyllfa), Partneriaeth Natur Sir Benfro (2018)
Cydgynllun Trafnidiaeth Lleol i Dde Orllewin Cymru 2015 – 2020 (2015)
Rheoli Dalgylchoedd Afon Cleddau ac Afonydd Arfordirol Sir Benfro, crynodeb, Cyfoeth Naturiol Cymru (2015)
Rheoli Dalgylchoedd Teifi a Gogledd Ceredigion, crynodeb, Cyfoeth Naturiol Cymru (2015)
Cynllun Gweithredu Adfer Natur ar gyfer Sir Benfro: Ein Strategaeth i Adfer Natur, Partneriaeth Natur Sir Benfro (2018)
Y Porthladd Rhydd Celtaidd (2023)

## Adran 3.0: Gwybodaeth Waelodlin

3.1 Mae'r wybodaeth waelodlin ar gyfer yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn wybodaeth feintiol ac ansoddol a data sy'n disgrifio cyflwr cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y Parc Cenedlaethol.

3.2 Mae gan wybodaeth waelodlin ddau ddiben, mae'n helpu i ganfod ar ba faterion y dylai'r Arfarniad o Gynaliadwyedd ganolbwyntio, ac mae'n rhoi meincnod i asesu perfformiad y Cynllun (a chywirdeb unrhyw ragfynegiadau) yn eu herbyn. Yn ogystal â dangos y sefyllfa bresennol mae'r data gwaelodlin yn dangos pan yn bosibl y sefyllfa yn y gorffennol ac amcanestyniadau ar gyfer y dyfodol, i ddangos tueddiadau.

3.3 Mae nodweddion gwaelodlin amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol ar gyfer y Parc Cenedlaethol yn cael eu cyflwyno yn Atodiad B. Wrth i'r Arfarniad o Gynaliadwyedd fynd drwy'r asesiad o'r Cynllun a'i fonitro, bydd angen mireinio'r data gwaelodlin a'r set wybodaeth. Bydd angen canfod a/neu gaffael data a gwybodaeth fwy meintiol a chywir, sy'n berthnasol i'r amcanion cynaliadwyedd.

***Cyfyngiadau'r data***

3.4 Mae tri anhawster ynghlwm wrth gasglu data gwaelodlin ar gyfer Arfarniad o Gynaliadwyedd:

- Efallai na fydd y data ar gael ar gyfer mater dan sylw neu efallai nad ydynt wedi cael eu casglu.
- Amseroldeb y data – efallai y bydd yr unig ddata sydd ar gael ar gyfer mater wedi dyddio. Neu efallai y bydd data cyfredol ar gael, ond mae'n bosibl na fydd setiau data hanesyddol ar gael i ddangos tueddiadau.
- Daearyddiaeth lle mae'r data'n cael eu casglu neu eu cyhoeddi – y lefel ddaearyddol lle mae'r data ar gyfer y rhan fwyaf o faterion yn cael eu cyhoeddi yw awdurdod lleol neu ward. Ychydig yn unig o setiau data a gyhoeddir ar gyfer ardaloedd Parciau Cenedlaethol. Nid yw hyd yn oed y data manylaf sydd ar gael yn gyffredinol (data ar gyfer Ardaloedd Cynnyrch y Cyfrifiad) yn cynnwys ardaloedd sy'n cyd-fynd â ffin y Parc Cenedlaethol. Gall daearyddiaeth data hefyd newid dros amser (e.e. y data mwyaf manwl a gyhoeddwyd ar gyfer Cyfrifiadau 1991, 2001, 2011 a 2021). Felly, yn aml bydd angen rhyngosod neu ddefnyddio technegau amcangyfrif eraill i gael data ar gyfer ardal y Parc Cenedlaethol, neu ddefnyddio data sy'n disgrifio ardal ehangach.

3.5 Hefyd, cafodd y rhan fwyaf o’r data a gasglwyd yn y waelodlin eu casglu gan gyrff allanol, ac i ddibenion nad ydynt o bosibl yn gysylltiedig â chynaliadwyedd nac asesiadau amgylcheddol.

3.6 Bydd gan gyfyngiadau’r data oblygiadau i’r casgliadau y gellir eu gwneud o’r waelodlin ac wrth fonitro’r Cynllun a’r Arfarniad. Dylai’r casgliadau hyn felly gyfeirio hefyd at wybodaeth ansoddol a barn a phrofiad arbenigol.

## Adran 4.0: Canfod Materion Cynaliadwyedd

4.1 Defnyddiwyd yr adnoddau canlynol i ganfod Materion Cynaliadwyedd:
- Y Polisïau, y Cynlluniau a'r Rhaglenni sy'n berthnasol i'r Cynllun Rheoli;
- Yr wybodaeth waelodlin a gasglwyd;
- Profiad swyddogion Awdurdod y Parc Cenedlaethol o faterion a wynebir wrth weithio ar ran yr Awdurdod;

4.2 Mae'r materion a ganfuwyd drwy'r prosesau uchod wedi'u crynhoi isod.

***Mater 1: Effeithiau Newid yn yr Hinsawdd***

Mae'n debygol y bydd newid yn yr hinsawdd yn cael effaith sylweddol ar y Parc Cenedlaethol, er bod natur a graddfa'r effeithiau rheini'n ansicr. Mae Amcanestyniadau Newid yn yr Hinsawdd y DU yn awgrymu, mewn senario gymedrol, y byddai Cymru'n gweld lefel y môr yn codi 0.5m erbyn 2100 gyda senario uchel o 1m. O ganlyniad i hyn mae'n debygol y byddai ardaloedd arfordirol Cymru'n profi llifogydd yn amlach, gyda llifogydd mwy difrifol, a byddai erydu arfordirol yn cynyddu. Byddai'r risg i seilwaith a chymunedau hefyd yn cynyddu'n sylweddol. Yn ychwanegol at hyn disgwylir i'r wlad brofi glawiad amlach a dwysach, a hafau poethach a sychach.

***Mater 2: Effaith hamdden a thwristiaeth, a datblygiadau cysylltiedig***

Dylid rhoi pwyslais mawr ar rôl y Parc Cenedlaethol mewn twristiaeth a gweithgarwch hamdden. Maent yn fuddiol i'r economi leol, ac i'r genedl o ran iechyd a llesiant. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, mi all effeithiau negyddol ddeillio o'r gweithgareddau hyn, gan gynnwys tagfeydd traffig, aflonyddwch a achosir gan weithgareddau fel jetiau sgïo, a phwysau cynyddol ar y seilwaith gwasanaethau cyhoeddus. Mae twristiaeth weithiau'n gallu arwain at gynigion ar gyfer datblygiadau amhriodol yn y Parc Cenedlaethol.

Lle bydd gweithgarwch twristiaeth yn cael effeithiau negyddol mi all y rhain gael eu teimlo gan yr amgylchedd a chan y boblogaeth breswyl, ac mi allant amharu at y profiad twristaidd ei hun. Mae'n cael ei gydnabod hefyd bod y diwydiant twristiaeth yn gallu gwneud cyfraniad positif at yr amgylchedd a'r boblogaeth breswyl.

I ddibenion datblygu Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol nodwyd 26 o fannau problemus lle mae problemau posibl sy'n gysylltiedig â hamdden. Mae rhai o'r materion a nodwyd yn ymwneud â defnydd ehangach o leoliad gan y cymunedau sy'n byw ynddynt e.e. traffig, ac mae rhai achosion o wrthdaro o ganlyniad i sawl defnydd hamdden gwahanol yn yr un lleoliad e.e. deifio a genweirio. Nodwyd y

materion hyn yn sgil ymgynghoriad mewnol â thîm addysg ac ymgysylltu'r Awdurdod a'r Tîm Hawliau Tramwy.

***Mater 3: Sensitifrwydd y dirwedd i ddatblygiadau***
Mae diweddariad mapio sensitifrwydd a gweledEdd tirweddau i Lywodraeth Cymru gan John Briggs CMLI (Cyfoeth Naturiol Cymru) o'r farn nad yw "capasiti" yn nodwedd o dirwedd ac y dylai cydnerthedd tirweddau i wrthsefyll newid gael ei ystyried drwy:

1. asesu gallu tirweddau i ddygymod â newid wrth gynnal y buddiannau sy'n deillio i gymdeithas.
2. Pa mor agored yw tirwedd i newid pan fydd yn profi pwysau diffiniedig
3. Y gwerthoedd y mae cymdeithas yn ei roi i'r dirwedd
4. Faint o newid mae cymdeithas yn barod i'w dderbyn.

***Mater 4: Dibyniaeth ar geir preifat***
Mae Sir Benfro'n ardal wledig ac felly mae'n anorfod bod yn rhaid i gyfran uchel siwrneiau gael eu gwneud ar ffyrdd â thrafnidiaeth breifat. Mae data'r Rhestr Genedlaethol o Allyriadau Atmosfferig ar gyfer allyriadau ocsidau Nitrogen a Charbon Monocsid yn dangos cydberthynas gref rhwng allyriadau a lleoliad priffyrdd gan awgrymu bod trafnidiaeth ffyrdd yn achosi llygredd yn lleol ac yn fyd-eang.

Yng Nghyfrifiad 2021, roedd gan 86.2% o aelwydydd yn y Parc Cenedlaethol o leiaf un car neu fan, o'i gymharu â Chymru gyfan lle'r oedd gan 80.6% o aelwydydd gar neu fan.

Mae presenoldeb nifer mawr o geir, boed mewn meysydd parcio neu ar y ffyrdd yn cael effaith negyddol ar ansawdd yr aer, y dirwedd, bioamrywiaeth, a hefyd ar y profiad hamdden. Mae prinder yr opsiynau sydd ar gael i deithio heblaw mewn ceir preifat yn gallu cyfrannu at allgau cymdeithasol yn achos preswylwyr ac ymwelwyr.

***Mater 5: Yr amgylchedd ffisegol***
Mae ansawdd yr aer yn y Parc Cenedlaethol yn uchel ar y cyfan er bod mannau lle ceir llygredd uwch o ganlyniad i draffig ffyrdd. Mae ansawdd yr afonydd yn gymedrol yn gyffredinol, er bod nifer o afonydd y Parc Cenedlaethol, gan gynnwys afonydd Gwaun a Solfa, a'i ddyfroedd arfordirol yn cael eu cyfrif fel bod mewn perygl neu o bosibl mewn perygl (o lygredd gwasgaredig a/neu lygredd yn y tarddle); newid ffisegol; a/neu rywogaethau estron) gan Cyfoeth Naturiol Cymru o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.

Ym mis Ionawr 2021, cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) dargedau newydd i leihau crynodiadau ffosfforws mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ledled Cymru. Ar hyn o bryd, mae dros 60% o gyrff dŵr yng Nghymru'n methu yn

erbyn y targedau llymach. Yn Sir Benfro, mae Afon Teifi ac Afonydd Cleddau wedi'u dynodi fel ACAau afonol ac maent yn methu yn erbyn targedau CNC.

Tipio anghyfreithlon, a sbwriel ar fin ffyrdd ac wedi'u gludo gan y môr yw'r problemau gwastraff mwyaf difrifol i'r Parc Cenedlaethol.

O ran ansawdd y pridd, yn y Parc Cenedlaethol mae cyfran uchel o Dir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas (BMV). Mae dadansoddi Map Rhagweld Dosbarthiad Tir Amaethyddol (ALC) 2 yn dangos bod dros 45% (44.59) o'r tir yn dod o fewn categorïau 1 – 3a ALC o'i gymharu â dim ond 16% (16.2) wrth ystyried Cymru gyfan.

***Mater 6: Cysoni datblygiadau ynni ag ystyriaethau tirweddol***

Mae diwydiant ynni sefydledig yn nyfrffordd Aberdaugleddau, gyda rhagor o ddatblygiadau'n cael eu hadeiladu, ac mae cynnydd pellach yn debygol yn sgil datblygiad ynni gwyrdd arfaethedig yn dilyn sefydlu'r Porthladd Rhydd Celtaidd yn 2023. Er bod y rhan fwyaf o'r datblygiadau y tu allan i'r Parc Cenedlaethol, mae'r datblygiad hwn yn cael effaith sylweddol ar dirwedd y Parc oherwydd ei raddfa a'i weledêdd, a hefyd gweithgarwch y llongau sy'n gysylltiedig â'r datblygiad. Mae gan ddatblygiadau ynni adnewyddadwy gryn botensial yn Sir Benfro, ar y tir ac yn y môr gan ddefnyddio ffynonellau ynni'r gwynt, y llanw a thonnau, solar a biomas. Fodd bynnag, gall y datblygiadau hyn gael effaith ddifrifol ar y dirwedd naill ai o ganlyniad i'r cyfleusterau cynhyrchu uniongyrchol neu'r cyfleusterau ategol.

***Mater 7: Rôl amaethyddiaeth (a busnesau eraill tir eraill)***

Mae amaethyddiaeth a gweithgarwch cysylltiol eraill (fel coedwigaeth) wedi bod yn allweddol i ddatblygiad tirwedd y Parc Cenedlaethol ac mi all barhau i wella'r dirwedd honno a'i hamrywiaeth fiolegol a diwylliannol cysylltiedig. Mae amaethyddiaeth yn Sir Benfro'n ddwys ar y cyfan, ac mae hynny'n aml yn niweidiol, yn enwedig i fioamrywiaeth, safleoedd archeolegol ac ansawdd dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol (Cymru) 2021). Mae dirywiad graddol busnesau yn y sectorau Amaethyddiaeth a Choedwigaeth yn awgrymu bod yr amodau economaidd presennol yn anodd i amaethyddiaeth a choedwigaeth, sy'n ei gwneud yn anos i'r busnesau hyn gyfrannu at wella'r dirwedd a bioamrywiaeth, a chael rôl gynhaliol yn niwylliant a chymunedau'r Parc Cenedlaethol.

Mae'r Gyfarwyddeb Nitradau (91/676/EEC) wedi'i datblygu i warchod dyfroedd rhag llygredd nitradau o ffynonellau amaethyddol. Mae gofyniad ar aelod wladwriaethau i nodi dyfrodd sydd wedi, neu a allai gael eu llygru gan nitradau ac i ddynodi fel Parthau Perygl Nitradau (NVZ) yr holl dir sy'n draenio i'r dyfroedd rheini. Amaethyddiaeth yw prif ffynhonnell allyriadau amonia a llygredd nitradau. Mae rheoli tail gwartheg yn cyfrif am tua 40% o allyriadau amonia. Mae nitrogen hefyd yn cael ei golli o wrteithiau wedi'i weithgynhyrchu wrth iddo gael ei daenu.

Nodi ffynonellau allyriadau lleol yw'r cam gyntaf i dargedu opsiynau lliniaru fel gorchuddio storfeydd slyri.

Mae map achosion o allyriadau amonia amaethyddol (ar gyfer derbynyddion Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol) – yn dangos dwyseddau allyriadau canolig ac uchel o'r sector gwartheg yn Sir Benfro[1].

Yn 2016, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar gynigion i reoli nitradau amaethyddol, a bydd dull Cymru gyfan yn cael ei fabwysiadu.

***Mater 8: Dyfodol yr amgylchedd adeiledig***

Mae natur unigryw amgylchedd adeiledig y Parc Cenedlaethol yn cael ei adlewyrchu yn nifer yr adeiladau rhestredig, yr henebion a'r ardaloedd cadwraeth. Fodd bynnag, mae'r amgylchedd adeiledig yn wynebu pwysau o sawl cyfeiriad: argaeledd deunyddiau a sgiliau addas i adfer a chynnal adeiladau traddodiadol; datblygiadau amhriodol sy'n effeithio ar leoliad adeiladau hanesyddol a nodweddion aneddiadau; a gwarchodaeth ddigonol i'r amgylchedd adeiledig y tu allan i ardaloedd cadwraeth. Mae'n bwysig bod adeiladau newydd ac ailddatblygiadau'n briodol o safbwynt estheteg a'u bod yn cyrraedd y safonau uchaf o ran cynaliadwyedd yn eu dyluniad a'u hadeiladwaith.

***Mater 9: Defnydd o'r amgylchedd morol***

Mae bywyd gwyllt yr arfordir, golygfeydd arfordirol a moroedd glân yn hanfodol i atyniadau hamdden y Parc Cenedlaethol. Mae ei arfordir yn ased cadwraeth pwysig ac yn goridor i symudiadau rhywogaethau. Mae ffiniau Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Sir Benfro Forol, Bae Ceredigion, a Bae ac Aberoedd Caerfyrddin yn gorgyffwrdd â thua 75% o arfordir y Parc Cenedlaethol. Mae'r Parc Cenedlaethol yn ymestyn i'r Distyll Cyfartalog ond mae hwn yn Barc arforol, ac mae'r ffactorau sy'n effeithio ar ei agweddau arforol yn ystyriaethau arwyddocaol wrth gyflawni dibenion a dyletswydd y Parc Cenedlaethol.

Y prif ffactorau sy'n effeithio ar yr amgylchedd morol o amgylch Sir Benfro yw gweithgarwch llongau yn ardal Aberdaugleddau, pysgota masnachol, a defnyddiau hamdden, sy'n cynnwys defnydd amhriodol o gerbydau peiriant.

***Mater 10: Defnydd o adnoddau domestig a masnachol***

Mae'r mater hwn yn cynnwys defnydd o ynni a dŵr, a chynhyrchu gwastraff, mewn gweithgarwch domestig a masnachol. Mae hefyd yn cynnwys gweithgarwch sy'n defnyddio adnoddau, fel chwareli. Mae'r defnydd o

[1] NERC Centre for Ecology and Hydrology, 2015, Assessing and Addressing Atmospheric Nitrogen Impacts on Natura 2000 Sites in Wales
https://naturalresources.wales/media/674560/life-n2k-aaanis-report.pdf
DEFRA, 2018, Code of Good Agricultural Practice for Reducing Ammonia Emissions

adnoddau'n anorfod i alluogi datblygu economaidd a chymdeithasol, a llesiant cyffredinol y boblogaeth. Fodd bynnag, mae defnydd anghynaliadwy ac aneffeithlon o adnoddau'n effeithio ar yr amgylchedd ffisegol o ran llygredd, straen ar ecosystemau, a diraddiant y dirwedd.

***Mater 11: Adnoddau archeolegol a hanesyddol pwysig***
Mae gan y Parc Cenedlaethol 285 o Henebion Cofrestredig, ac mae dros 10,000 o safleoedd yn y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol. Mae dros 1200 o adeiladau rhestredig a 13 o Ardaloedd Cadwraeth dynodedig. Mae naw Ardal Tirwedd Hanesyddol sy'n gyfan gwbl neu'n rhannol o fewn y Parc Cenedlaethol, ac mae 15 o Barciau a Gerddi Hanesyddol yn y Parc Cenedlaethol.

***Mater 12: Adnoddau biolegol pwysig***
Mae 13 o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig a 5 o Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig sy'n gyfan gwbl neu'n rhannol o fewn y Parc Cenedlaethol, 60 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, 7 Gwarchodfa Natur Genedlaethol, un Warchodfa Natur Leol ac un Parth Cadwraeth Morol.

***Mater 13: Adnoddau daearegol pwysig***
Mae 52 o safleoedd Adolygu Cadwraeth Ddaearegol (safleoedd o bwys Cenedlaethol neu Ryngwladol) yn y Parc Cenedlaethol. Mae rhaglen ar waith hefyd i ganfod Safleoedd Daearegol o Bwys Rhanbarthol (tua 65 yn y Parc Cenedlaethol).

**Mater 14: Adnoddau tirwedd pwysig**
Mae dynodiad fel Parc Cenedlaethol yn deillio'n bennaf o ganlyniad i bwysigrwydd y dirwedd. Mae Parciau Cenedlaethol yn y DU yn cael eu dynodi gan yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur fel Categori 5: Tirweddau Gwarchodedig. Diffinnir y rhain fel 'darn o dir, gydag arfordir fel yn briodol, lle mae'r rhyngweithio rhwng pobl a natur dros amser wedi cynhyrchu ardal â chymeriad unigryw gyda gwerth esthetig, ecolegol a/neu ddiwylliannol arwyddocaol, ac sy'n aml ag amrywiaeth fiolegol uchel. Mae gwarchod dilysrwydd y rhyngweithio traddodiadol hwn yn hanfodol i warchodaeth, cynhaliaeth ac esblygiad ardal o'r fath.'[2]

***Mater 15: Tai Fforddiadwy***
Mae prisiau tai a rhenti yn y Parc Cenedlaethol yn sylweddol uwch nag yng ngweddill Sir Benfro, roedd pris gwerthu tai canolrifol yn y Parc Cenedlaethol yn 2023 dros naw gwaith y cyflog canolrifol. Mae hyn yn golygu bod mynediad at dai yn anodd i aelwydydd newydd sy'n ffurfio yn y Parc Cenedlaethol, neu i aelwydydd presennol sy'n byw mewn llety nad yw bellach yn addas.

[2] IUCN (1994) Guidelines for Protected Area Management Categories. Cambridge: IUCN

Mae’r LHMA Drafft (Mawrth 2024) yn amcangyfrif fod angen mawr am eiddo un llofft fforddiadwy. Mae’r LHMA Drafft yn amcangyfrif bod angen am 74% o eiddo cymdeithasol dan rent newydd un llofft yn y Parc Cenedlaethol.

***Mater 16: Ansawdd cyfleoedd cyflogaeth***

Er nad yw'n ymddangos bod prinder cyfleoedd cyflogaeth yn Sir Benfro, mae'r swyddi sydd ar gael yn aml yn talu cyflogau isel (roedd dros 25% o weithwyr llawn amser yn ennill llai na £25,000 y flwyddyn yn 2023) ac yn dymhorol (mae nifer yr hawlwyr budd-daliadau yn y gaeaf bron i ddwbl y nifer yn ystod yr haf).

***Mater 17: Mynediad at wasanaethau***

Mae gwasanaethau lleol yn cau ac mae'r pellter sy'n rhaid ei deithio i gyrraedd rhai gwasanaethau'n golygu bod mynediad at wasanaethau hanfodol yn gallu bod yn anodd mewn rhai rhannau o'r Parc Cenedlaethol. Mae hyn yn cael ei waethygu gan y nifer cymharol uchel o aelwydydd (13.7% yng Nghyfrifiad 2021, -2.7% o'i gymharu â Chyfrifiad 2011) nad ydynt yn berchen ar gar. Mae hwn yn fater lle mae angen dadansoddiad mwy trylwyr i sicrhau nad oes sectorau penodol o'r boblogaeth yn cael eu hallgau, ac nad yw pobl yn cael eu gorfodi i ddefnyddio mwy ar geir preifat i gyrraedd gwasanaethau hanfodol.

Mae Cyfrifiad 2021 yn dangos bod dros draean (33.2%) y preswylwyr arferol yn 65 oed a hŷn. Mae'r pwysau ychwanegol ar wasanaethau o ganlyniad i hyn yn cynnwys:

- Mwy o alw am wasanaethau gofal iechyd ac amseroedd aros hwy
- Addasu cludiant cyhoeddus ar gyfer gofynion teithwyr hŷn, neu'r potensial iddynt gael eu hynysu oherwydd diffyg darpariaeth
- Llai o bobl o oedran gweithio i helpu i ddiwallu'r anghenion hyn

***Mater 18: Ail gartrefi a thai haf***

Yng Nghyfrifiad 2011 gwelwyd fod un o'r cyfraddau uchaf (27.7%[3]) o ddefnydd o ail gartrefi / tai haf o'i stoc dai cyffredinol yng Nghymru a Lloegr yn y Parc Cenedlaethol. Mae ymchwiliad pellach i'r mater hwn drwy ddefnyddio data'r dreth gyngor ac ardrethi annomestig yn dangos bod y ffigur hwn yn sylweddol uwch mewn rhai canolfannau yn y Parc Cenedlaethol, er enghraifft yn Aber Bach mae cyfradd yr ail gartrefi a thai gwyliau yn ~63%, ac yn 47% yn Amroth[4].

Mae hyn yn debygol o gael effaith negyddol ar fforddiadwyedd tai, a chefnogaeth i gyfleusterau lleol. Mae tai haf hefyd yn elfen sylweddol o'r economi dwristiaeth y Parc Cenedlaethol.

***Mater 19: Defnydd milwrol o'r Parc Cenedlaethol***

---

[3] Yn seiliedig ar Gyfrifiad 2011 "Aelwydydd heb breswylydd arferol"
[4] Cyngor Sir Penfro 2022

Mae gan y Weinyddiaeth Amddiffyn nifer o safleoedd yn y Parc Cenedlaethol, ac mae problemau'n gysylltiedig â'r rhain oherwydd yr aflonyddwch, y datblygiadau a'r cyfyngiadau ar fynediad. Ar y llaw arall, mae'r presenoldeb milwrol wedi gwarchod rhannau mawr rhag amaethu dwys ac mae felly wedi cael effeithiau positif ar fioamrywiaeth ac adnoddau archeolegol. Mae'r lluoedd arfog hefyd yn darparu cyfleoedd cyflogaeth yn y Parc Cenedlaethol.

***Mater 20: Hygyrchedd y Parc Cenedlaethol fel adnodd hamdden i bob carfan o gymdeithas***

Nododd Adolygiad 2004 o Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru 'mai barn yr ymgyngoreion cenedlaethol yw bod mwyafrif eu hymwelwyr yn dod o grŵp cymdeithasol cyfyngedig (h.y. dosbarth canol gwyn)'. Os yw'r Parc Cenedlaethol am gyflawni ein nodau ar gyfer cynwysoldeb, mae angen sicrhau bod cyfleoedd i bob carfan o gymdeithas i ddefnyddio'r parc i ddibenion hamdden. Mae angen llety â gwasanaeth a hunanarlwyo sydd ar gael i bobl ar bob incwm. Byddai'r cynwysoldeb hwn yn cael ei fygwth gan bolisïau a fyddai'n symud cynnych twristiaeth Sir Benfro tuag at begwn uchaf y farchnad.

Mae'r LMA Drafft (2024) yn dangos bod Sir Benfro, yng Nghyfrifiad 2021, yn cynnwys cyfran ychydig uwch o'r boblogaeth sy'n anabl o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2021 na Chymru gyfan (22.0% o'i gymharu â 21.6%). Mae hyn yn cynrychioli 27,173 o bobl yn y Sir. Mae tua 46.1% o'r bobl sy'n anabl o dan y Ddeddf Cydraddoldeb wedi'u cyfyngu i raddau helaeth yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd, gyda'r 53.9% arall wedi'u cyfyngu rywfaint yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd. Mae'n debygol y bydd y 12,522 o bobl sy'n anabl o dan y Ddeddf Cydraddoldeb wedi'u cyfyngu i raddau helaeth, yn cyfrif am y rhan fwyaf o'r angen am ddarpariaeth hygyrch ac addasadwy.

***Mater 21: Rôl genedlaethol y Parc Cenedlaethol i wella iechyd a llesiant***

Mae Parciau Cenedlaethol yn cynnig lleoliad lle gall gweithgareddau sy'n hybu iechyd a llesiant gael eu cynnal. Mae'r rhain yn cynnwys buddiannau 'gweithredol' fel cerdded neu seiclo a buddiannau 'goddefol' fel rhai a geir drwy 'lonyddwch', golygfeydd sy'n ysbrydoli a dod wyneb yn wyneb â natur y Parciau Cenedlaethol sy'n cynnig yr amgylcheddau o ansawdd da sydd mor hanfodol i gynnal aer, dŵr a thir glân y byddai iechyd corfforol a meddyliol pobl yn dioddef hebddynt.

***Mater 22: Diwylliant Unigryw***

Mae natur unigryw cymunedau'r Parc Cenedlaethol yn cael ei effeithio gan allfudo pobl ifanc a mewnfudo o rannau eraill o'r DU. Enghraifft o sut y gall hyn amlygu ei hun yw effaith negyddol ar y defnydd o'r Gymraeg yn y Parc Cenedlaethol.

Mae cyfran y siaradwyr Cymraeg yn y Parc yn gostwng. Yn y cyfrifiad mwyaf diweddar, yn 2021, dywedodd 19.4% o breswylwyr arferol y gallant siarad Cymraeg, o'i gymharu â 21.5% yng nghyfrifiad 2011, gostyngiad o 2.1%. Fodd bynnag, mae cymunedau yn y Parc Cenedlaethol lle mae'r ffigur yn sylweddol uwch.

Ac eithrio'r newidiadau yn y defnydd o'r Gymraeg rhwng Cyfrifiadau, mae elfennau natur unigryw'r diwylliant yn anodd eu diffinio a'u mesur, sy'n ei gwneud yn anodd pennu a meithrin elfennau unigryw cymunedau'r Parc Cenedlaethol.

***Mater 23: Y galw am fwynau***

Mae galw am fwynau sy'n cael eu cloddio, a achosir yn rhannol gan gyfraddau ailgylchu ac ailddefnyddio isel yn achos adnoddau mwynol, ac mae'r Parc Cenedlaethol hwn yn adnodd mwynol cyfoethog. Mae'r chwareli sy'n cael eu gweithio ar hyn o bryd yn dod i ddiwedd eu hoes. Drwy'r Polisi Cynllunio Cenedlaethol byddem yn cynghori yn erbyn echdynnu mwynau mewn Parciau Cenedlaethol heblaw mewn amgylchiadau eithriadol. Ers 2000 mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi cael chwe chais i ehangu gweithgarwch chwarela ar safle presennol neu i wneud gwaith archwilio ar gyfer adnoddau newydd. Ym mis Ebrill 2024 roedd 5 safle chwarela'n weithredol ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro (gweler Tudalen B99 o Atodiad B "Gwybodaeth Waelodlin").

***Mater 24: Rôl genedlaethol y Parc Cenedlaethol i godi ymwybyddiaeth, gwerthfawrogiad a dealltwriaeth o'i nodweddion arbennig***

Ail ddiben Parciau Cenedlaethol yw hybu dealltwriaeth o nodweddion arbennig y Parciau Cenedlaethol ac mae dylanwadu ar agweddau ac ymddygiad yn hanfodol i gadwraeth effeithiol yn y Parc. Y nod yw rhannu'r gwerthoedd, a datblygu sgiliau a dealltwriaeth i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth ynglŷn â sut y gellir gwneud pethau'n fwy cynaliadwy. Mae'r deilliannau addysgol hyn yn debygol o amlygu eu hunain mewn newidiadau cynnil mewn ymddygiad, a fydd yn digwydd dros amser hir. Felly mae asesu effaith y cyfleoedd a gynigir gan y Parc Cenedlaethol i gyflawni'r nodau hyn yn debygol o fod yn anodd.

## Adran 5.0: Amcanion Cynaliadwyedd

5.1 Defnyddiwyd y materion a nodwyd yn Adran 4 i lunio amcanion cynaliadwyedd sydd gyda'i gilydd yn ffurfio Fframwaith Asesu Cynaliadwyedd. Defnyddir y fframwaith hwn i fesur cynaliadwyedd amcanion a pholisïau'r Cynllun Rheoli.

5.2 Mae'r rhestr isod yn dangos clystyrau cysylltiedig o'r materion a nodwyd yn adran 4. Yn y cofnodion yn y golofn 'Clystyrau o faterion cysylltiedig', mae'r rhif yn cyfeirio at y mater a nodwyd yn Adran 4, a'r mae'r testun yn mireinio eu cyd-destun i gael yr Amcanion Cynaliadwyedd.

5.3 Bwriedir i'r amcanion hyn ddangos cyfeiriadau tuag at newid yn hytrach na phwyntiau terfynol. Oherwydd hyn nid oes targedau wedi'u pennu; y nod yng nghyd-destun yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yw gwireddu'r amcan yn llawn. Rhoddir prawf wedyn ar yr amcanion i weld a ydynt yn gydnaws â dibenion y Parc Cenedlaethol ac â'i gilydd.

***Amcanion Cynaliadwyedd a chlystyrau o faterion cysylltiedig:***

**Amcan Cynaliadwyedd 1:** Sectorau amaethyddiaeth a choedwigaeth hyfyw sy'n cyfrannu at gadwraeth a gwella'r dirwedd, bioamrywiaeth a llesiant y gymuned.
**Clwstwr o faterion cysylltiedig:** 5, 7,11,12, 14

**Amcan Cynaliadwyedd 2:** Lleoli datblygiadau fel eu bod yn lleihau'r angen i deithio, yn enwedig â cheir preifat.
**Clwstwr o faterion cysylltiedig:** 2,4,5,14, 17, 21

**Amcan Cynaliadwyedd 3:** Gwarchod a gwella tirweddau, trefluniau a morluniau, a'u holl gydrannau (gan gynnwys yr amgylchedd adeiledig ac archeoleg) gyda chyfeiriad at nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol
**Clwstwr o faterion cysylltiedig:** 1,3,6,8,9,11,12,13,14,19,22, 23, 24

**Amcan Cynaliadwyedd 4:** Cynyddu niferoedd y preswylwyr ac ymwelwyr sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden corfforol (yn enwedig cerdded a seiclo) a chyfleoedd i wirfoddoli.
**Clwstwr o faterion cysylltiedig:** 4,16,21

**Amcan Cynaliadwyedd 5:** Cynyddu'r niferoedd sy'n ymweld â'r Parc Cenedlaethol y tu allan i'r prif dymor ymwelwyr.

**Clwstwr o faterion cysylltiedig:** 2,3,16,21

**Amcan Cynaliadwyedd 6:** Rheoli effeithiau newid yn yr hinsawdd gan gyfeirio'n benodol at y perygl o lifogydd; yr effaith ar fioamrywiaeth, iechyd y cyhoedd.
**Clwstwr o faterion cysylltiedig:** 11,12,13,14

**Amcan Cynaliadwyedd 7:** Lleihau'r ffactorau sy'n cyfrannu at newid yn yr hinsawdd.
**Clwstwr o faterion cysylltiedig:** 1,2,4,10

**Amcan Cynaliadwyedd 8:** Cynyddu'r cyfleoedd i gyfrannu at ddatblygiadau sy'n cynnal cymunedau lleol.
**Clwstwr o faterion cysylltiedig:** 3,15,16,18

**Amcan Cynaliadwyedd 9:** Annog mynediad i bawb i'r Parc Cenedlaethol, gan adlewyrchu cymysgedd cymdeithasol ein cymdeithas.
**Clwstwr o faterion cysylltiedig:** 20,21,24

**Amcan Cynaliadwyedd 10:** Cynnal nodweddion diwylliannol unigryw cymunedau.
**Clwstwr o faterion cysylltiedig:** 2,7,8,14,15,17,18,19,22,24

**Amcan Cynaliadwyedd 11:** Bod effeithiau cloddio am fwynau yn y Parc Cenedlaethol yn lleihau o'i gymharu â'r lefel bresennol a bod yr enillion posibl i fioamrywiaeth a'r dirwedd o gyn safleoedd mwynau'n cael eu gwireddu.
**Clwstwr o faterion cysylltiedig:** 3,12,13,14,23,

**Amcan Cynaliadwyedd 12:** Lleihau effeithiau negyddol gwastraff.
**Clwstwr o faterion cysylltiedig:** 5,10,12,14

**Amcan Cynaliadwyedd 13:** Mae cyfleusterau cymunedol (gan gynnwys cyfleusterau iechyd a gofal cymdeithasol, cyfleusterau cymdeithasol a'r ddarpariaeth fanwerthu) yn parhau i ddiwallu anghenion poblogaeth y Parc Cenedlaethol.
**Clwstwr o faterion cysylltiedig:** 2,3,17,18,22

**Amcan Cynaliadwyedd 14:** Cynnal a gwella bioamrywiaeth o fewn a'r tu allan i safleoedd dynodedig.
**Clwstwr o faterion cysylltiedig:** 2,7,9,12,24

**Amcan Cynaliadwyedd 15:** Hyrwyddo defnydd cynaliadwy o ddyfroedd mewndirol ac arfordirol, a gwella eu hansawdd.
**Clwstwr o faterion cysylltiedig:** 1,2,5,7,9,10,12,14,20

***Cydnawsedd yr amcanion a dibenion y Parc Cenedlaethol***

5.4 O dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995 mae gan Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru a Lloegr ddau ddiben statudol:

- *gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol; a*
- *hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd i ddeall a mwynhau nodweddion arbennig yr ardaloedd hynny*

5.5 Wrth gyflawni'r dibenion hyn bydd Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn:

- *ymdrechu i hybu llesiant economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol o fewn y Parc Cenedlaethol*

5.6 Mae'r tabl canlynol yn dangos y berthynas rhwng y dibenion a dyletswydd a'r amcanion a nodir uchod.

| **Amcan yr AC** / **Diben/Dyletswydd** | **1** | **2** | **3** | **4** | **5** | **6** | **7** | **8** | **9** | **10** | **11** | **12** | **13** | **14** | **15** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓/ - | - | ✓ | ✓ | ✓ | - | ✓ | ✓ | ✓ | - | ✓ | ✓ |
| hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd i ddeall a mwynhau nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol | - | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | - | - | 0 | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| hybu llesiant economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol o fewn y Parc Cenedlaethol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 0 | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

✓ Cydnaws; × Anghydnaws; 0 Niwtral; - Dim perthynas o bwys

5.7 Ar y cyfan mae’r amcanion a nodwyd yn gydnaws â dibenion y Parc Cenedlaethol a’i ddyletswydd, ac maent i gyd yn berthnasol i o leiaf un o’r tri. Mae rhai amcanion yn cynrychioli canlyniadau cymysg posibl o ran y dibenion a’r ddyletswydd, ond ym mhob achos ond un mae hierarchaeth y dibenion a’r ddyletswydd yn cael ei chynnal (nid oes achos lle mae canlyniad cydnaws ar gyfer yr ail ddiben neu ddyletswydd yn cael ei gyflawni ar draul canlyniad cymysg i’r diben cyntaf). Mae’r ansicrwydd ynglŷn â’r berthynas rhwng y dibenion a’r ddyletswydd, ac mae amcan 7 yn adlewyrchu’r ansicrwydd ynglŷn ag union natur effaith newid yn yr hinsawdd yn y Parc Cenedlaethol, a’r ffaith y barnwyd y gallai rhai effeithiau fod yn rhai positif ac eraill yn negyddol.

***Cydnawsedd yr amcanion â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015***

5.8 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn ymwneud â sefydlu egwyddor datblygu cynaliadwy yn yr holl waith a wneir gan gyrff cyhoeddus ac mae'n gosod gofyniad ar bob corff cyhoeddus i ddangos sut y byddant yn gwneud cynnydd ar y 7 nod llesiant a geir yn y Ddeddf. Fel fframwaith datblygu cynaliadwy cyffredinol i Gymru mae'n hanfodol bod Arfarniad o Gynaliadwyedd y Cynllun Rheoli yn rhoi ystyriaeth lawn i'r Ddeddf a'i nodau.

5.9 Mae'r tabl canlynol yn edrych ar y cydnawsedd a'r sylw a roddir rhwng Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a 7 nod llesiant Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

**Cydnawsedd â'r Nodau Llesiant**

| | |
|---|---|
| ✓ | Cydnaws |
| × | Anghydnaws |
| 0 | Niwtral |
| ? | Ansicr |

| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – Amcanion<br>Amcanion yr AC | Cymru ffyniannus. | Cymru gydnerth. | Cymru Iachach. | Cymru fwy cyfartal. | Cymru o gymunedau cydlynus. | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang. |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | ✓ | ✓ | 0 | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| 2 | ✓ | 0 | ✓ | 0 | ✓ | ✓ | ✓ |
| 3 | ✓ | ✓ | ✓ | 0 | 0 | ✓ | ✓ |
| 4 | 0 | 0 | ✓ | 0 | 0 | ✓ | ✓ |
| 5 | ✓ | 0 | 0 | 0 | ✓ | ✓ | 0 |
| 6 | 0 | ✓ | ✓ | 0 | ✓ | 0 | 0 |
| 7 | ✓ | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | ✓ |
| 8 | ✓ | ✓ | 0 | 0 | ✓ | ✓ | ✓ |
| 9 | 0 | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| 10 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | ✓ | ✓ |
| 11 | ✓ | ✓ | 0 | 0 | 0 | 0 | ✓ |
| 12 | ✓ | ✓ | ✓ | 0 | 0 | 0 | ✓ |
| 13 | 0 | 0 | ✓ | 0 | ✓ | ✓ | 0 |
| 14 | ✓ | ✓ | 0 | 0 | 0 | 0 | ✓ |
| 15 | ✓ | ✓ | 0 | 0 | 0 | 0 | ✓ |

5.10 Ar y cyfan mae Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn gydnaws â’r nodau Llesiant, gydag o leiaf 7 o Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn cyfrannu at y rhan fwyaf o’r nodau. Yr eithriad yw “Cymru fwy cyfartal”, sy’n cael sylw bychan iawn ym meini prawf yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Bydd yr Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb yn sicrhau bod y nod llesiant hwn yn cael ei ystyried yn fwy manwl yn ystod yr adolygiad o’r Cynllun Rheoli.

*Rhyng-gydnawsedd Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd:*

| | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 (Hyfywedd economaidd a rôl gadwraeth amaethyddiaeth a choedwigaeth) | | | | | | | | | | | | | | |
| 2 (Lleoli datblygiadau fel eu bod yn lleihau’r angen i deithio, yn enwedig â cheir preifat) | - | | | | | | | | | | | | | |
| 3 (Gwarchod tirweddau, trefluniau ac yn y blaen.) | ✓ | ✓ | | | | | | | | | | | | |
| 4 (Cynyddu mathau corfforol o hamdden) | - | ✓ | ? | | | | | | | | | | | |
| 5 (Cynyddu niferoedd yr ymwelwyr y tu allan i’r prif dymor) | - | × | ? | - | | | | | | | | | | |
| 6 (Rheoli effeithiau newid yn yr hinsawdd) | ✓ | - | ✓ | - | - | | | | | | | | | |
| 7 (Lleihau ffactorau sy’n cyfrannu at newid yn yr hinsawdd) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | × | ✓ | | | | | | | | |
| 8 (Cyfraniad datblygiadau at gynnal cymunedau lleol) | ✓ | - | - | - | ✓ | - | - | | | | | | | |
| 9 (Annog mynediad i bawb i’r Parc Cenedlaethol) | - | ? | - | - | - | - | ? | - | | | | | | |
| 10 (Cynnal nodweddion diwylliannol unigryw cymunedau ) | ✓ | ✓ | ✓ | - | - | - | - | ✓ | - | | | | | |
| 11 (Effeithiau andwyol ac enillion posibl cloddio am fwynau) | - | - | ✓ | - | - | ✓ | ✓ | - | - | - | | | | |
| 12 (Lleihau effeithiau negyddol gwastraff) | - | - | ✓ | - | - | - | ✓ | - | - | - | ✓ | | | |
| 13 (Cyfleusterau cymunedol yn parhau i ddiwallu anghenion y boblogaeth) | ✓ | ✓ | - | ✓ | ? | ✓ | ✓ | ✓ | - | ✓ | - | - | | |
| 14 (Cynnal a gwella bioamrywiaeth) | ✓ | ✓ | ✓ | ? | ? | ✓ | ✓ | - | - | - | ✓ | ✓ | | |
| 15 (Defnydd cynaliadwy ac ansawdd dyfroedd mewndirol ac arfordirol) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ? | ✓ | ✓ | ✓ | - | - | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 |

✓ Cydnaws; × Anghydnaws; 0 Niwtral; - Dim perthynas o bwys

*Nodiadau ar gyfer amcanion anghydnaws posibl:*

*Amcanion 2 a 5: mae ymwelwyr y tu allan i’r prif dymor yn fwy tebygol o brofi tywydd anffafriol, ac felly’n fwy tebygol o ddefnyddio eu ceir fel cludiant.*

*Amcanion 5 a 7: unwaith eto mae ymwelwyr y tu allan i’r prif dymor yn fwy tebygol o ddefnyddio’u ceir. Hefyd, mae’n bosibl y bydd mwy o angen am wres mewn llety ymwelwyr, a all fod yn hen neu’n llai effeithlon yn eu defnydd o ynni.*

***Perthnasedd Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd i'r Prosesau Asesu Eraill sydd i'w cynnal ar Gynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol***

5.11 **Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd:**

- Sectorau amaethyddiaeth a choedwigaeth hyfyw yn economaidd sy'n cyfrannu at warchod a gwella'r dirwedd, bioamrywiaeth a llesiant y gymuned.
- Gwarchod a gwella tirweddau, trefluniau a morluniau, a'u holl gydrannau (gan gynnwys yr amgylchedd adeiledig ac archeoleg) gyda chyfeiriad at nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol
- Rheoli effeithiau newid yn yr hinsawdd gyda chyfeiriad penodol at y perygl o lifogydd; yr effaith ar fioamrywiaeth; iechyd y cyhoedd
- Effeithiau andwyol cloddio am fwynau yn y Parc Cenedlaethol yn lleihau o'r lefel bresennol a bod enillion posibl i fioamrywiaeth a'r dirwedd o gyn safleoedd mwynau'n cael eu gwireddu
- Cynnal a gwella bioamrywiaeth o fewn a'r tu allan i safleoedd dynodedig. Hyrwyddo defnydd o ddyfroedd mewndirol ac arfordirol, a chynnal a gwella eu hansawdd.

5.12 **Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg:**

- Cynnal nodweddion diwylliannol unigryw cymunedau
- Annog a hwyluso mynediad i bawb i'r Parc Cenedlaethol, gan adlewyrchu cymysgedd cymdeithasol ein cymdeithas
- Cynyddu'r cyfleoedd i gyfrannu at ddatblygiadau sy'n cynnal cymunedau lleol
- Sectorau amaethyddiaeth a choedwigaeth hyfyw yn economaidd sy'n cyfrannu at warchod a gwella'r dirwedd, bioamrywiaeth a llesiant y gymuned.

5.13 ***Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, Ystyriaethau Economaidd Gymdeithasol, Iechyd a Hawliau Dynol:***

- Annog a hwyluso mynediad i bawb i'r Parc Cenedlaethol, gan adlewyrchu cymysgedd cymdeithasol ein cymdeithas
- Cyfleusterau cymunedol (gan gynnwys cyfleusterau iechyd a gofal cymdeithasol, cyfleusterau cymdeithasol a'r ddarpariaeth fanwerthu) sy'n parhau i ddiwallu anghenion poblogaeth y Parc Cenedlaethol
- Hyrwyddo defnydd o ddyfroedd mewndirol ac arfordirol, a chynnal a gwella eu hansawdd
- Cynnal nodweddion diwylliannol unigryw cymunedau
- Cynyddu'r cyfleoedd i gyfrannu at ddatblygiadau sy'n cynnal cymunedau lleol
- Rheoli effeithiau newid yn yr hinsawdd gyda chyfeiriad penodol at y perygl o lifogydd; yr effaith ar fioamrywiaeth; iechyd y cyhoedd

- Cynyddu niferoedd y preswylwyr ac ymwelwyr sy’n cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden corfforol (yn enwedig cerdded a seiclo) a chyfleoedd i wirfoddoli.
- Sectorau amaethyddiaeth a choedwigaeth hyfyw yn economaidd sy’n cyfrannu at warchod a gwella’r dirwedd, bioamrywiaeth a llesiant y gymuned.

5.14 **Asesiad o Lesiant Cenedlaethau’r Dyfodol – Nodau Llesiant/ 5 Ffordd o Weithio**

- Yr holl amcanion cynaliadwyedd yn yr Arfarniad o Gynaliadwyedd

***Y berthynas rhwng yr Amcanion Cynaliadwyedd a’r materion a nodwyd yn Atodiad 1 o’r Gyfarwyddeb SEA (2001/42/EC)***

5.11 Mae’r Gyfarwyddeb SEA yn cynnwys gofyniad i asesu effeithiau arwyddocaol tebygol ar yr amgylchedd gan roi sylw i’r materion yn y tabl isod. Dangosir yr amcanion sy’n ymdrin â phob mater SEA isod.

| **Cyfarwyddeb SEA** | **Amcan Cynaliadwyedd (s)** |
|---|---|
| Bioamrywiaeth | 1; 6; 11; 14 |
| Poblogaeth | 2; 6; 8; 10; 13; 15 |
| Iechyd pobl | 2; 4; 6; 9; 12; 13; 15 |
| Anifeiliaid | 1; 6; 11; 14 |
| Planhigion | 1; 6; 11; 14 |
| Pridd | 1 |
| Dŵr | 1; 12; 15 |
| Aer | 2; 7 |
| Ffactorau hinsoddol | 2; 6; 7 |
| Asedau perthnasol | 3; 6; 13; 15 |
| Treftadaeth ddiwylliannol (gan gynnwys treftadaeth bensaernïol ac archeolegol)* | 1; 3; 8; 10 |
| Tirwedd | 1; 3; 11; 12; 14; 15 |

*Nid yw’r termau hyn wedi’u diffinio’n eglur yn y Gyfarwyddeb. Bernir fod 'Poblogaeth' yn golygu’r ddemograffeg ac ansawdd bywyd. Bernir fod “Asedau perthnasol' yn golygu adnoddau a seilwaith.